RHIF YR EITEM AR Y RHAGLEN

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I** | **CYFARFOD BWRDD Y COMISIYNWYR** |
| **DYDDIAD** | **26.4.2011** |
| **PWNC** | **Gwerthfawrogiad Cymeriad Ardal Cadwraeth Llanfechell** |
| **DEILYDD(ION) PORTFFOLIO** | **Alex Aldridge** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL** | **Glyn E. Jones est. 2460** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Keith A. Williams est. 2433** |

**1. Cadarnhewch natur yr adroddiad os gwelwch yn dda trwy glicio un o'r blychau isod**

Er gwybodaeth……….. ☐

Gweithredol………...... ☒

Strategol……………… ☐

**2. Rheswm/Rhesymau pam fod angen penderfyniad gan y Comisiynwyr**

I gymeradwyo mabwysiadu'r ddogfen fel Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol (CCA) i cyrfarfod nesaf y Pwyllgor Llawn.

**3. Crynodeb o'r adroddiad**

Gwerthfawrogiad Cymeriad Ardal Cadwraeth (yn cynnwys Cefndir hanesyddol, gosodiad, a pensaerniaeth lleol ac ati) ac Adolygiad o'r Terfynau.

**4. Argymhelliad/Argymhellion a'r rhesymau**

Bod Bwrdd Y Comisiynwyr yn cadarnhau Gwerthfawrogiad Ardal Cadwraeth Llanfechell ac yn cynorthwyo argymhelliad o'r ddogfen i'r Pwyllgor Llawn nesaf i'w mabwysiadu fel Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol.

**5. Opsiynau eraill a'r rheswm/rhesymau dros eu gwrthod**

Bydd gwrthod mabwysiadu'r ddogfen fel CCA yn andwyo ystyriaeth deunydd a chyforwyddyd pwysig yn ddifrifol (ar gyfer datblygiadau) yn y broses cynllunio.

**6. Ymgynghori**

6.1 Cyllid/Adran 151…............................... ☐ do……… ☒ naddo

6.2 Swyddog Cyfreithiol/Monitro……………..... ☐ do……… ☒ naddo

6.3 Adnoddau Dynol………........................ ☐ do……… ☒ naddo…… ☐ amherth

6.4 Gwasanaethau Eiddo…………………….... ☐ do……… ☒ naddo…… ☐ amherth

6.5 Uned Gyfathrebu……............................ ☐ do……… ☒ naddo

6.6 Rhai eraill yr ymgynghorwyd â nhw (yn cynnwys aelodau):

**7. Unrhyw faterion Fframwaith Polisi**

Na.

**8. Materion Amgylcheddol**

A yw'r mater / eitem yn ymwneud â:

1. Bywyd gwyllt (bioamrywiaeth) o dan Adran 40 Deddf yr Amgylchedd Naturiol ………….☐ do……. ☐ naddo ….☒ amherth
a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006*

2. Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn o dan Rhan 85 o'r Deddf ……..☐ do……☐ naddo …. ☒ amherth
Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) 2000**

(*Gall Gynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol roi cyngor: est. 2470)
(**Gall Swyddog Cefn Gwlad ac AHNE roi cyngor: est. 2429)
Nodiadau

**9. Papurau cefndirol**

Cafodd y ddogfen drafft ei adael yn gyhoeddus i'w archwilio – Gweler Crynodeb Gweithredol.

## 1.0 CEFNDIR

1.1 Yn y Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 mae angen i Awdurdodau Lleol ddynodi fel Ardal Cadwraeth "Unrhyw ardal o ddiddordeb hanesyddol neu bensaerïol arbennig y mae ei gymeriad neu ei edrychiad yn ddymunol i'w cadw neu i'w wella".

1.2 Mae angen hefyd i awdururdodau lleol adolygu eu hardaloedd cadwraeth o bryd i'w gilydd ac ystyried a oes angen am ddynodiadau ychwanegol.

1.3 Er mwyn cyflawni'r gofynion o dan y Deddf mae'r Adain Amgylchedd Adeiledig a Thirwedd yn y Gwasanaeth Cynllunio yn gwneud rhaglen dreigl o adolygiadau i bob un o'r Ardaloedd Cadwaeth ar Ynys Môn.

1.4 Er mwyn rhoddi i'r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol ei statws priodol, fe ddylai gael ei fabwysiadu trwy benderfyniad y Cyngor llawn.

## 2.0 CYFARWYDDYD CYNLLUNIO PRESENNOL

2.1 Mae'r cyfarwyddyd a'r polisi presennol i'w weld yng Nghylchlythyr y Swyddfa GymreigG 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth a Pholisi Cynllunio Cymru.

2.2 Maent yn argymell paratoi gwerthusiadau cadwraeth a'u mabwysiadu fel Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol (CCA) all fod o gymorth i awdurdodau cynllunio yn eu gweithgareddau cynllunio a rheoli datblygu.

## 3.0 Y BROSES ADOLYGU

3.1 Mae'r gwerthusiad cymeriad wedi edrych ar y ffin bresennol a nodi a oedd angen unrhyw newidiadau i'r dynodiad gwreiddiol. Roedd yn canolbwyntio hefyd ar ddiddordebau hanesyddol arbennig, cymeriad, edrychiad a chadwraeth fel sy'n cael ei bwysleisio yn Neddf 1990.

3.2 Mae'r gwerthusiad yn argymell newidiadau i'r ffin (gweler crynodeb gweithredol a chynllun sydd ynghlwm). Mae'r Gwasanaeth yn hyderys fod adnoddau digonol ar gael i rheoli estyniad i'r ardal.

## 4.0 YMGYNGHORI CYHOEDDUS

4.1 Yn dilyn paratoi'r ddogfen drafft fe rhoddwyd rhybudd cyhoeddus yn y wasg leol. Dilynwyd hyn gan gyfnod o chwech wythnos o ymgynghori cyhoeddus rhwng 14 Rhagfyr 2010 a 28 Ionawr 2011.

4.2 Anfonwyd copiau hefyd i'r llyfrgell cyhoeddus Cemaes a Llangefni, prif dderbynfa'r Cyngor Sir a'r Gwasanaeth Cynllunio, Cyfarwyddwr Corfforaethol

(Amgylchedd a Technegol), Prif Swyddog Datblygu Economic, Deilydd Portffolio’r Gwasanaethau Cynllunio a Chynaliadwyedd, Cynghorydd Lleol, Cyngor Cymdeithas Mechell, Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd a haneswr lleol.

4.3 Fe gafwyd ddau ymateb i’r ymgynghoriad cyhoeddus (un gan Cyngor Cymdeithas Mechell ac un gan Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd). Nid oedd gwrthwynebiad at newidiadau i’r ffin na’r gwerthfawrogiad cymeriad gan Gyngor Cymdeithas Mechell neu Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd.

4.4 Newidiadau bychan sydd wedi ei wneud i’r ddogfen wreiddiol sydd yn cynnwys: ychwanegiadau ac ymestyniadau i’r disgrifiad archaeolegol a datganiad bod perchnogaeth Pont y Plas Green yn aneglur.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Fydd y Datganiad Cymeriad Ardal Cadwraeth hwn yn dod yn Gyfarwyddyd Cynllunio Atodol (CCA) gweithredol pan gaiff ei fabwysiadu. Mae'n cefnogi **Cynllun Lleol Ynys Môn 1996 (Polisi 40)** a'r **Cynllun Datblygu Unedol (Polisi EN13)** a ddaeth i ben sy'n nodi y bydd cymeriad a golwg yr holl ardaloedd cadwraeth dynodedig yn cael eu diogelu rhag datblygiad anghydnaws. Bydd eu cymeriad yn cael ei wella a'i ddatblygu drwy wneud gwelliannau a chaniatáu datblygiad newydd sydd wedi'i ddylunio'n addas.

**Bydd y ddogfen hon yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.**

Mae **Cylchlythyr 61/96** (paragraff 20) yn datgan mai ansawdd lleoedd ddylai fod y brif ystyriaeth wrth nodi, diogelu a gwella ardaloedd cadwraeth. Mae hyn yn dibynnu ar fwy nag adeiladau unigol. Mae'n gydnabyddedig y gall cymeriad arbennig lle ddeillio o lawer o ffactorau, gan gynnwys: grwpio adeiladau; eu graddfa a'u perthynas â mannau awyr gored;... manylion pensaerniol ac yn y blaen.

Mae **Polisi Cynllunio Cymru 2010** (paragraff 6.5.17) yn nodi y byddai rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio petai unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn gwrthdaro â'r nod o gadw neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth neu ei lleoliad.

Yr Adran 14 **Canllawiau Cynllunio Ategol – Cyfarwyddyd Dylunio Amgylchedd Trefol a Gwledig (2008)** Cyngor Sir Ynys Môn mae cyngor yng nghyswllt datblygiadau yn y cyd-destun hanesyddol.

Ceir crynodeb isod o'r elfennau sy'n cyfrannu at gymeriad neu olwg ardal gadwraeth **Llanfechell** y mae angen ei chadw neu ei gwella.

### Hanes

- Mae i'r ardal hanes cyn hanesyddol a chanoloesol.
- Mae hanes cymdeithasol y pentref yn yr 17eg a'r 18fed Ganrif wedi'u cofnodi yn nyddiaduron William Bulkeley Brynddu.
- Roedd llawer o'r tir o amgylch Llanfechell unwaith yn dir comin.
- Mae i'r pentref hanes hir o addysg ffurfiol.
- Fe barhaodd y pentref i ymestyn yn ystod y 19eg Ganrif gyda'r datblygiad rhubanaidd i'r De Orlelwin (Ffordd y Mynydd).

**Gosodiad**

- Mae'r rhan hanesyddol o Lanfechell wedi'i amgáu tua'r Gogledd a'r Gorllewin gan Afon Meddanen.

- Mae canol hanesyddol y pentref wedi'i glystyru o amgylch yr eglwys.

- Mae'n cynnwys nifer o adeiladau brodorol o'r 17eg - 19eg Ganrif.

**Pensaernïaeth**

- Y steil gryfaf yn yr ardal gadwraeth yw honno a gysylltwn gydag pensaernïaeth gyffredin.

- Mae hynodrwydd lleol y pentref i'w weld mewn cymysgedd o eiddo pâr/ unigol syml neu derasau byr o fythynnod gweithwyr.

- Mae'r adeiladau a'r strwythurau yn tueddu i fod yn ddeulawr o ran uchder, gyda thoeau llechi ac yn frodorol mewn steil gydag amrywiaeth o gladin ar y wal.

- Un o nodweddion pwysig sydd yn amlwg ar rhai rhes o dai yw amrywiaeth mewn uchder ac ongl y toeau llechi.

**Terfyn**

- Bwriedir ymestyn ffin yr ardal gadwraeth fel ei bod yn adlewyrchu yn fwy cywir faint hanesyddol y pentref i'r Gogledd Orllewin.

- Gyda'r newidiadau buasai arwynebedd yr ardal gadwraeth yn codi o 25,850m$^2$ i 28,251m$^2$.